***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 933 (Cy. 213)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Awst 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *11 Awst 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 97(1) a (2) a 98(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

### Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae'r Atodlen i Reoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-baragraff (b) o baragraff 1, mewnosoder—

"(ba) adran 48(1) i (5) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**3**);".

### Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**4**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 14(2)—

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2006/175 (Cy. 26). Mae paragraff 2 o'r Atodlen wedi ei ddiwygio gan O.S. 2010/1142, erthygl 2(3).
(**3**) 2018 dccc 2.
(**4**) O.S. 2010/2839 (Cy. 233).

(a) ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder "neu";

(b) hepgorer is-baragraff (iii) a'r "neu" o'i flaen.

**Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y lleoedd priodol, mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "DADYTA 2018" ("*the ALNETA 2018*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**6**);";

"mae i "anghenion addysgol arbennig", mewn perthynas â phlentyn y mae Pennod 1 o Ran 4 o DA 1996(**7**) yn parhau i fod yn gymwys iddo, yr ystyr a roddir i "special educational needs" gan adran 312 o DA 1996;";

"mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*"), mewn perthynas â phlentyn y mae Rhan 2 o DADYTA 2018 yn gymwys iddo, yr ystyr a roddir gan adran 2 o DADYTA 2018;";

"ystyr "plentyn sydd â chynllun datblygu unigol" ("*child with an individual development plan*") yw plentyn y mae cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ef o dan Ran 2 o DADYTA 2018;";

(b) yn y diffiniad o "addysg addas", ar ôl "arbennig" mewnosoder "neu anghenion dysgu ychwanegol (yn ôl y digwydd)".

(3) Yn yr Atodlen—

(a) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**2A.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sydd â chynllun datblygu unigol a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol, o ganlyniad i enwi'r ysgol yng nghynllun datblygu unigol y plentyn o dan adran 48 o DADYTA 2018.";

(b) ym mharagraff 14, ar ôl "addysgol arbennig" mewnosoder "neu anghenion dysgu ychwanegol (yn ôl y digwydd)".

**Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015(**8**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "ysgol arbennig", yn lle "337(1)" rhodder "337".

**Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015(**9**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(**5**) O.S. 2013/1141 (Cy. 121). Mae diwygiadau i'r Atodlen nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**6**) 2018 dccc 2.

(**7**) 1996 p. 56. Mae Pennod 1 o Ran 4 wedi ei diddymu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(9). Mae diwygiadau perthnasol eraill i adran 312 yn cynnwys y rheini sydd wedi eu gwneud gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Atodlen 7, paragraff 23 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), Atodlen 3, Rhan 1, paragraffau 1 ac 11.

(**8**) O.S. 2015/484 (Cy. 41). Mae diwygiad i reoliad 3 nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**9**) O.S. 2015/1599 (Cy. 198). Mae diwygiadau i reoliad 3 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) hepgorer yr "a" ar ôl paragraff (2)(c)(iii);

(b) yn lle paragraff (2)(c)(iv) rhodder—

"(iv) pan gymeradwywyd yr ysgol o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996(**10**) (cymeradwyo ysgolion annibynnol sy'n darparu addysg arbennig) cyn 1 Medi 2021 a'i bod yn parhau i fod wedi ei chymeradwyo yn union cyn y dyddiad hwnnw, awdurdod lleol sy'n talu'r ffioedd mewn cysylltiad â phresenoldeb disgybl cofrestredig yn yr ysgol y mae Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**11**) yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag ef; a

(v) pan fo gan ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol gynllun datblygu unigol y mae'r ysgol wedi ei henwi ynddo o dan adran 14(6) neu 19(4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**12**), yr awdurdod lleol sy'n cynnal y cynllun datblygu unigol o dan yr adran 14 neu 19 honno;".

**Dirymiadau canlyniadol**

**7.** O ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i Ddeddf Addysg 1996(**13**) gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae'r canlynol wedi eu dirymu o ran Cymru—

(a) Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994(**14**);

(b) Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994(**15**);

(c) Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) (Diwygio) 1998(**16**);

(d) Rheoliadau Addysg (Offer Peryglus mewn Ysgolion) (Dileu'r Cyfyngiadau ar Ddefnydd) (Cymru) 2017(**17**).

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

10 Awst 2021

(**10**) 1996 p. 56. Mae adran 347 wedi ei diddymu gan adran 58 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2). Mae diwygiadau eraill i adran 347 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**11**) Mae Pennod 1 o Ran 4 wedi ei diddymu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(9).

(**12**) 2018 dccc 2. Mae diwygiad i adran 14 nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**13**) 1996 p. 56. Mae'r diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan adrannau 57 a 58 o Ddeddf 2018.

(**14**) O.S. 1994/651. Gwnaed y Rheoliadau 1994 hyn o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Addysg 1993 (p. 35) ac ar ôl ei chydgrynhoi, maent yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan Ddeddf Addysg 1996, adrannau 328(6), 347(2) a 569(4). Diwygiwyd adran 347 gan adran 146 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25) i gyfyngu ei chymhwysiad i Gymru. Cyfyngwyd ar gymhwysiad adran 328(6) i fod mewn perthynas â phlant yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), Atodlen 3, Rhan 1, paragraffau 1 a 10 (gan fewnosod adran 311A yn Neddf Addysg 1996).

(**15**) O.S. 1994/652. Gwnaed y Rheoliadau 1994 hyn o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Addysg 1993 ac ar ôl ei chydgrynhoi, maent yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan Ddeddf Addysg 1996, adrannau 328(6), 339(1), (5), 342(2), (4), (5), (6), a 569(4). Dirymwyd y Rheoliadau 1994 hyn o ran Lloegr gan O.S. 1999/2257, rheoliad 1(3).

(**16**) O.S. 1998/417.

(**17**) O.S. 2017/965 (Cy. 248).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018"). Mae Deddf 2018 yn diwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth. Mae rheoliad 7 yn dirymu Rheoliadau a wnaed o dan bwerau sydd wedi eu diwygio fel nad ydynt mwyach yn gymwys o ran Cymru, neu sydd wedi eu diddymu, yn ôl-weithredol, gan adrannau 57 a 58 o Ddeddf 2018. Mae erthygl 8 o Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)) yn dwyn adrannau 57 a 58 i rym ar 1 Medi 2021, sef yr un diwrnod ag y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.